Fersiwn hawdd ei darllen

# Ein cynllun i blant a phobl ifanc

Sut byddwn ni'n gwneud Cymru'n lle gwych i blant a phobl ifanc



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Fersiwn hawdd ei darllen o'r '**Cynllun Plant a Phobl Ifanc'** ydyw.

**Mawrth 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Mae hon yn ddogfen hawdd ei darllen. Ond mae'n bosibl y bydd angen i chi gael help i'w darllen o hyd. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Mae'n bosibl y bydd y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Gallwch chi weld beth yw ystyr pob gair mewn glas ar **dudalen 27**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae'n golygu **Llywodraeth Cymru**.

Cafodd y ddogfen ei gwneud yn un hawdd ei darllen gan **Hawdd Ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. Cliciwch yma i ddweud beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei darllen hon.

# Cynnwys

**Tudalen**


Cyflwyniad....................................................................................4

Y dechrau gorau mewn bywyd..................................................7

Ysgol a choleg..............................................................................9

Gwella sgiliau a chael swydd..................................................11

Bywydau iach.............................................................................13

Gwneud pethau'n deg ac yn garedig....................................16

Argyfyngau'r hinsawdd a natur...............................................19

Ein nodau ar y cyd.....................................................................22

Sut y byddwch chi'n gwybod ein bod yn gwneud yr hyn rydyn ni'n dweud y byddwn ni'n ei wneud............................23

Sut y gallwch chi helpu............................................................25

Sut y byddwn ni'n eich cynnwys chi.......................................26

Geiriau anodd............................................................................27


# Cyflwyniad



Rydym am i Gymru fod yn lle gwych i fyw, gweithio a thyfu i fyny ynddo.



Rydym yn ymrwymedig i **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**, sy'n cael ei adnabod hefyd fel **CCUHP**.




Rhestr o hawliau i blant a phobl ifanc yw **CCUHP**.

Mae gwledydd ym mhob rhan o'r byd wedi cofrestru iddi. Mae hyn yn golygu y byddan nhw'n gweithio i wneud yn siŵr bod hawliau plant a phobl ifanc wedi cael eu rhestru yn y **CCUHP**.



Byddwn ni'n ystyried y **CCUHP** ym mhob penderfyniad a wnawn ni.



Rydym yn credu y dylai pob un o'n plant a phobl ifanc fwynhau'r hawliau yn y **CCUHP.**



Yn 2021, ysgrifennodd Gweinidogion Cymru eu cynllun ar gyfer y gwaith y byddan nhw'n ei wneud tan yr etholiad nesaf ym mis Mai 2026. **Y Rhaglen Lywodraethu** yw'r enw ar y cynllun.




Mae'n cynnwys rhestr o rai o'r pethau pwysig y byddan nhw'n eu gwneud ar gyfer plant a phobl ifanc.




Rydym am i chi weld beth rydyn ni'n ei wneud ar gyfer plant a phobl ifanc.



Ac rydyn ni am i chi ein helpu i gyflawni ein nodau.




Mae’r ddogfen yn rhoi gwybod i chi am rywfaint o’r gwaith rydyn ni wedi’i wneud o’r blaen. A beth rydyn ni’n bwriadu ei wneud yn ystod y 12 mis nesaf.



Nid yw hon yn rhestr o bopeth rydyn ni wedi’i wneud hyd yn hyn. Ac mae yna bethau eraill rydyn ni’n gweithio arnyn nhw hefyd.




Byddwn ni’n diweddaru’r rhestr bob blwyddyn. Felly gallwch chi weld beth rydyn wedi’i gyflawni, a beth byddwn ni’n canolbwyntio arno nesaf.



Byddwn ni’n siarad â phlant a phobl ifanc bob blwyddyn, cyn diweddaru’r cynllun.

# Y dechrau gorau mewn bywyd

## Hyd yma, rydyn ni wedi:





- Cynnig gofal plant i blant 3 a 4 oed, y mae eu rhieni'n gweithio.
- Rhoi cymorth ymwelwyr iechyd i bob teulu sydd â phlentyn dan 7 oed.
- Rhoi help a chyngor i rieni.



## Yn 2022 i 2023 byddwn ni'n:



- Talu am ofal plant i ragor o blant.

- Helpu teuluoedd i siarad Cymraeg â'u plant.




- Gwneud yn siŵr bod mwy o ofal plant a grwpiau rhiant a phlentyn Cymraeg.



- Rhoi mynediad i **Eisteddfod yr Urdd 2022** am ddim.

- Helpu mwy o blant gyda'u lleferydd, trwy ein prosiect **Siarad Gyda Fi**.



- Rhoi Bwndeli Babi am ddim i ragor o deuluoedd. Bocsys yw Bwndeli Babi gyda phethau fel teganau a dillad babi a matiau newid cewynnau ynddyn nhw.



- Rhoi **eiriolaeth** i rieni lle mae eu plant yn wynebu risg o fynd i ofal.

> **Eiriolaeth** yw pan fydd rhywun yn eich helpu chi ac yn siarad ar eich rhan chi.

# Ysgol a choleg

## Hyd yma, rydyn ni wedi:




- Gwneud meintiau dosbarthiadau i disgyblion 4 i 7 oed yn llai.

- Helpu teuluoedd sydd heb lawer o arian i brynu gwisg ysgol ac offer chwaraeon.




- Darparu cynhyrchion mislif am ddim mewn ysgolion a cholegau. Er enghraifft, tamponau a phadiau.

## Yn 2022 i 2023 byddwn ni'n:




- Dechrau'r **Cwricwlwm** newydd i Gymru. Bydd hwn yn dechrau ym mis Medi 2022.

> **Cwricwlwm** yw cynllun ar gyfer yr hyn y dylai plant a phobl ifanc ei ddysgu yn yr ysgol.



- Byddwn ni’n dechrau meddwl a allem neu a ddylem newid y flwyddyn ysgol a’r diwrnodau ysgol. Er enghraifft, edrych ar ba mor hir yw gwyliau a phryd y byddan nhw’n digwydd.




- Cefnogi pobl i ddefnyddio mwy o Gymraeg mewn ysgolion a cholegau, gartref ac yn y lleoedd maen nhw’n byw.



- Gwneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle teg i gael addysg yn Gymraeg.

- Talu i fwy o blant gael prydau ysgol am ddim.



- Dal i weithio i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc anabl, a’r rhai sydd angen cymorth ychwanegol gyda’u haddysg yn cael yr hyn mae ei angen arnyn nhw i gyrraedd eu potensial.




- Cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i aros mewn addysg yn hirach os byddan nhw eisiau gwneud hynny. A chael gwell canlyniadau a chymhwyster.



- Rhoi gwell cymorth i bobl ifanc sy’n gorffen ysgol. Eu helpu i gael swydd neu i gael mwy o hyfforddiant neu addysg.

# Gwella sgiliau a chael swydd

## Hyd yma, rydyn ni wedi:



- Creu 100,000 o **brentisiaethau**.

  **Prentisiaeth** yw pan fydd rhywun yn dysgu sgiliau swydd wrth weithio.



- Darparu gwell cyngor ar yrfaoedd.

- Cefnogi pobl gydag anghenion cymhleth sydd heb swydd.

## Yn 2022 i 2023 byddwn ni’n:



- Rhoi cyfle i bawb dan 25 oed i weithio, cael addysg neu hyfforddiant neu i sefydlu eu busnes eu hunain. **Gwarant i Bobl Ifanc** yw’r enw ar hwn.




- Cefnogi pobl 16 i 18 oed i gael sgiliau ar gyfer gwaith, trwy brosiect o’r enw **Twf Swyddi Cymru +**.



- Gweithio tuag at greu 125,000 yn fwy o **brentisiaethau**.




- Ei gwneud hi’n haws i bobl ifanc gael gwasanaethau paru swyddi.




- Helpu pobl ifanc i ddysgu a defnyddio’r Gymraeg yn y gwaith.
- Helpu pobl ifanc drwy ein cynllun **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid**.

# Bywydau iach

## Hyd yma, rydyn ni wedi:



- Newid y gyfraith fel nad oes gan neb hawl i gosbi plant yn gorfforol. Er enghraifft, smacio. Mae rhagor o wybodaeth am stopio cosbi corfforol ar ein gwefan.

- Ariannu **Haf o Hwyl** a **Gaeaf Llawn Lles**.




- Ysgrifennu'r **Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Person Ifanc:** sef set o bethau fel gwefannau, apiau a llinellau cymorth a all helpu pobl ifanc i ofalu am eu hiechyd meddwl.

## Yn 2022 i 2023 byddwn ni'n:



- Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid eraill i roi **brechlynnau** i blant.

> Meddyginiaeth yw **brechlyn** sy'n helpu pobl i ymladd heintiau i'w stopio rhag mynd yn sâl.





- Helpu plant a theuluoedd i fyw bywydau iachach a bod yn fwy gweithgar trwy ein prosiect **Pwysau Iach: Cymru Iach**.



- Gwella gwaith ieuenctid er mwyn i bobl ifanc gael rhywle diogel i wneud ffrindiau, dysgu a siarad am eu problemau.



- Parhau â'n gwaith i ofalu am iechyd meddwl a theimladau mewn ysgolion.

- Gwneud yn siŵr bod pob ardal yng Nghymru yn dilyn ein pecyn cynllunio o'r enw **NEST/NYTH**. Diben hwn yw gofalu am iechyd meddwl pobl ifanc o'r adeg maen nhw'n fabanod.



- Gwella'r cymorth mae pobl ifanc yn ei gael ar gyfer eu hiechyd meddwl mewn colegau a phrifysgolion.



- Rhoi cymorth iechyd meddwl arbenigol mewn ysgolion.




- Profi pa mor dda mae lleoedd diogel yn y gymuned yn gweithio i gefnogi pobl ifanc mewn **argyfwng**.

**Argyfwng** yw pan fydd rhywun angen help yn gyflym am eu bod nhw mewn sefyllfa anodd neu beryglus. Er enghraifft, am fod eu hiechyd meddwl yn gwaethygu'n sydyn.



# Gwneud pethau'n deg ac yn garedig

## Hyd yma, rydyn ni wedi:



- Rhoi'r hawl i bobl 16 ac 17 oed bleidleisio yng Nghymru.



- Gwella cymorth i blant sy'n **ceisio lloches**, sydd wedi dod yma heb oedolyn.

  **Ceisiwr lloches** yw rhywun sy'n gadael ei wlad ei hun i ddianc rhag perygl. Mae nhw'n gofyn am gael byw mewn gwlad arall.



- Gwneud mwy i ddod o hyd i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a'u helpu.

## Yn 2022 i 2023 byddwn ni'n:



- Adeiladu cartrefi i blant ag anghenion cymhleth yng Nghymru. Er mwyn iddyn nhw allu aros yn agos i ble roedden nhw'n arfer byw.



- Gweithio gyda chartrefi plant a gwasanaethau gofal maeth i newid y ffordd rydyn ni'n darparu'r gwasanaethau yma.



- Profi ein hopsiynau tai newydd i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Byddwn ni'n gwneud hyn trwy waith y **Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref**.




- Ysgrifennu a gweithredu ar gynlluniau i wella bywydau pobl gyda **nodweddion gwarchodedig**.

**Nodweddion gwarchodedig** yw pethau fel rhyw, hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol rhywun – pwy maen nhw'n ei garu a'i ffansïo. Rhaid i ni wneud yn siŵr na fydd pobl yn cael eu trin yn annheg o'u hachos nhw.



- Creu cynlluniau i ddiogelu merched ifanc rhag **cam-drin domestig**, **aflonyddu** a **thrais rhywiol**.





**Cam-drin domestig** yw unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun, ac sy'n cael ei gyflawni gan bartner, cyn bartner neu aelod o'r teulu.

**Aflonyddu** yw ymddygiad sy'n peri gofid neu'n niweidio rhywun – er enghraifft, cael eich bwlio.

**Trais rhywiol** yw gweithred rywiol a wneir i rywun pan na fydd yn cytuno iddi.



- Parhau â'n cynllun i bobl ifanc sydd wedi bod mewn trafferth gyda'r gyfraith. Eu helpu i ymgartrefu gyda'u teuluoedd eto pan fyddan nhw'n gadael lleoedd fel y carchar. Yr enw ar y cynllun hwn yw **Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru**.

# Argyfyngau'r hinsawdd a natur

## Hyd yma, rydyn ni wedi:



- Dadlau yn erbyn pethau fel cloddio am lo yng Nghymru.

- Gostwng cost trafnidiaeth gyhoeddus i bobl ifanc 16-21 oed.




- Helpu teuluoedd sydd heb lawer o arian i wresogi eu cartrefi yn y gaeaf.

## Yn 2022 i 2023 byddwn ni'n:



- Gwahardd plastig untro – pethau fel poteli plastig a chyllyll, ffyrc a llwyau plastig.



- Helpu i ddiogelu natur a bywyd gwyllt trwy **gynllun Rhwydweithiau Natur**.



- Parhau â phrosiectau **Maint Cymru** ac **Eco-ysgolion**. Mae'r prosiectau yma yn addysgu plant a phobl ifanc am ein hamgylchedd.



- Ysgrifennu dogfen am gydweithio i ddelio â **newid yn yr hinsawdd**.

**Newid yn yr hinsawdd** yw newidiadau mewn patrymau tywydd dros amser hir, sy'n achosi pethau fel llifogydd a stormydd.



- Dechrau creu **Coedwig Genedlaethol i Gymru**.



- Gweithio gydag ysgolion i wneud ffyrdd yn fwy diogel a helpu plant i gerdded a beicio i'r ysgol.




- Gwneud y terfyn cyflymder yn 20 milltir yr awr ar ffyrdd sydd â thai arnyn nhw.



# Ein nodau ar y cyd



Byddwn ni’n  cydweithio fel llywodraeth a gyda sefydliadau eraill fel awdurdodau lleol, y GIG a sefydliadau gwirfoddol.

## Cydweithio, ein nod yw bod plant a phobl ifanc o bob cefndir yn cael y canlynol:



- Cael y dechrau gorau mewn bywyd.
- Cael eu trin yn deg mewn addysg.
- Cael cymorth drwy addysg, hyfforddiant ac i gael gwaith.
- Cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i gael iechyd meddwl da.
- Cael cyfle teg mewn bywyd.
- Cael cartref da a diogel i fyw ynddo.
- Cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i aros gyda’i gilydd fel teulu. Neu ddod yn ôl at ei gilydd gyda’u teulu os yn bosibl.

# Sut y byddwch chi'n gwybod ein bod yn gwneud yr hyn rydyn ni'n dweud y byddwn ni'n ei wneud



Mae 9 peth pwysig rydym eisiau eu cyflawni. Erbyn 2050, rydym eisiau:




- Bron pob plentyn yng Nghymru i gael 2 ymddygiad iach neu fwy.




- 3 o bob 4 oedolyn i gael cymhwyster lefel 3 neu'n uwch.

- Ychydig iawn o oedolion o oedran gweithio i fod heb unrhyw gymwysterau.



- Cymru ond i ddefnyddio ei chyfran deg o adnoddau'r byd.



- Bod menywod a dynion, pobl anabl a heb fod yn anabl a phobl o gefndiroedd gwahanol yn ennill yr un arian am yr un gwaith.



- Bod bron pob person ifanc 16 i 24 oed mewn addysg neu hyfforddiant yn cael swydd.




- Miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.



- Bydd gan Gymru **allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net**.

> Mae **allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net** yn golygu na fyddwn ni'n rhyddhau mwy o nwy niweidiol i'r aer, nag y gallwn ni ei glirio o'r aer.



Byddwn ni'n edrych ar yr hyn y gwnaethon ni ddweud y byddwn ni'n ei wneud yn y cynllun hwn bob blwyddyn er mwyn ein helpu i gyflawni'r 9 nod yma. Byddwn ni'n rhoi gwybod i chi sut rydym ni'n perfformio hefyd.

# Sut y gallwch chi helpu



Rydyn ni'n gwybod bod plant a phobl ifanc yn helpu ei gilydd a'u cymunedau ar hyd a lled Cymru.



Gallwn ni wneud mwy pan fyddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd.



Mae llawer o bethau y gallwn ni, Llywodraeth Cymru, eu gwneud. Ac hefyd pobl fel rhieni, gofalwyr, athrawon, gweithwyr ieuenctid, meddygon, nyrsys ac yn y blaen!

Hoffem ofyn i bawb wneud y canlynol:



- Gweithio gyda ni i wneud Cymru'n lle gwych i dyfu i fyny, byw a gweithio ynddo.
- Dewis beth y byddwch yn ei wneud i helpu i wneud iddo ddigwydd.
- Cydweithio i wella gwasanaethau lleol a bywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd.

# Sut y byddwn ni'n eich cynnwys chi

Byddwn yn:



- **Gwrando** ar blant, pobl ifanc a theuluoedd wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.



- **Siarad** â phlant, pobl ifanc a theuluoedd i weld bod yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn gweithio.



- **Ymateb** i'r hyn mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud.




Os ydych am gysylltu â ni, gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt ar ein gwefan drwy glicio yma.

# Geiriau anodd

### Aflonyddu

Aflonyddu yw ymddygiad sy'n peri gofid neu'n niweidio rhywun – er enghraifft, cael eich bwlio.

### Allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net

Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net yn golygu nad ydym yn rhyddhau mwy o nwy niweidiol i'r aer, wedyn gallwn glirio'r aer.

### Argyfwng

Argyfwng yw pan fydd rhywun angen help yn gyflym am eu bod nhw mewn sefyllfa anodd neu beryglus. Er enghraifft, am fod eu hiechyd meddwl yn gwaethygu'n sydyn.

### Brechlyn

Meddyginiaeth yw brechlyn sy'n helpu pobl i ymladd heintiau i'w stopio rhag mynd yn sâl.

### Cam-drin Domestig

Cam-drin domestig yw unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun, ac sy'n cael ei gyflawni gan bartner, cyn bartner neu aelod o'r teulu.

### CCUHP

Rhestr o hawliau i blant a phobl ifanc yw CCUHP .

Mae gwledydd ym mhob rhan o'r byd wedi cofrestru iddi. Mae hyn yn golygu y byddan nhw'n gweithio i wneud yn siŵr bod hawliau plant a phobl ifanc wedi cael eu rhestru yn y CCUHP.

### Ceisiwr lloches

Ceisiwr lloches yw rhywun sy'n gadael ei wlad ei hun i ddianc rhag perygl. Mae'n gofyn am gael byw mewn gwlad arall.

## Eiriolaeth

Eiriolaeth yw pan fydd rhywun yn eich helpu chi ac yn siarad ar eich rhan chi.

## Newid yn yr hinsawdd

Newid yn yr hinsawdd yw newidiadau ym mhatrymau'r tywydd dros amser hir, sy'n achosi pethau fel llifogydd a stormydd.

## Nodweddion gwarchodedig

Nodweddion gwarchodedig yw pethau fel rhyw, hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol rhywun – pwy maen nhw'n ei garu a'i ffansïo. Rhaid i ni wneud yn siŵr na fydd pobl yn cael eu trin yn annheg o'u hachos nhw.

## Prentisiaeth

Prentisiaeth yw pan fydd rhywun yn dysgu sgiliau swydd wrth weithio.

## Trais Rhywiol

Trais rhywiol yw gweithred rywiol a wneir i rywun pan na fydd yn cytuno iddi.

## Y Cwricwlwm

Cwricwlwm yw cynllun ar gyfer yr hyn y dylai plant a phobl ifanc ei ddysgu yn yr ysgol.